**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (ABERDAUGLEDDAU, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn hwyluso gorymdaith digwyddiad Carnifal Aberdaugleddau a gynhelir ar gefnffordd yr A4076, neu gerllaw iddi, yn Aberdaugleddau, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, ar gyfer y digwyddiad neu ar gyfer gwaith brys, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4076 a elwir yn Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road sy'n ymestyn o'i chyffordd â St Anne's Road hyd at ei chyffordd â Charles Street.

Nid oes angen unrhyw lwybrau eraill oherwydd caiff y darn o'r gefnffordd ei gau ar sail dreigl a chaniateir i draffig ddilyn yr orymdaith.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Gorffennaf 2023 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol rhwng 13:00 o'r gloch a 14:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4076 TRUNK ROAD (MILFORD HAVEN, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the procession of the Milford Haven Carnival event being held on or near the A4076 trunk road at Milford Haven, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, for the event or for emergency works, from proceeding on the length of the A4076 trunk road known as Victoria Road, Hamilton Terrace and Great North Road that extends from its junction with St Anne's Road to its junction with Charles Street.

No alternative routes are necessary as traffic will be held under a rolling closure and allowed to follow the procession.

The Order comes into force on 1 July 2023 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate between 13:00 hours and 14:00 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Transport
Welsh Government